# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 6 Tachwedd 2006

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A ymgynghorwyd â Chyngor Sir Gwynedd mewn unrhyw adolygiad ynghylch Comisiwn Sgrîn Cymru a gyflawnwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. (WAQ48445)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A gyflawnwyd unrhyw ymchwil gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried buddiannau economaidd Comisiwn Sgrîn Cymru ac a wnaiff y Gweinidog y wybodaeth hon yn gyhoeddus. (WAQ48442)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yng nghyswllt y strategaeth Diwydiannau Creadigol, pa uchelgais sydd gan y gweinidog ynghylch Comisiwn Sgrîn Cymru. (WAQ48446)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o staff a gyflogir gan Gomisiwn Sgrîn Cymru ar hyn o bryd, a phryd cawsant hwy eu talu ddiwethaf. (WAQ48443)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o nawdd y mae Comisiwn Sgrîn Cymru wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mhob un o'r cyfnodau 2004-2005, 2005-2006 a 2006-2007. (WAQ48444)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o nawdd y mae Comisiwn Sgrîn Cymru yn ei dderbyn gan bob Awdurdod Lleol yng Nghymru. (WAQ48440)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa ymchwil ac ymgynghori a gyflawnwyd ynghylch adnoddau dynol fel rhan o'r adolygiad diweddar o Gomisiwn Sgrîn Cymru. (WAQ48439)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r adolygiad a gyflawnwyd yn ddiweddar i bennu dyfodol Comisiwn Sgrîn Cymru. (WAQ48438)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am swyddi a gollwyd o Gomisiwn Sgrîn Cymru. (WAQ48441)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau*

**Janet Ryder (Gogledd Cymru):** Pa asesiad a wnaed o’r effaith y mae dysgu niferoedd cynyddol o blant gweithwyr mudol yn ei chael ar gyllidebau AALlau. (WAQ48447)